

# CYNGOR GWYNEDD



## Adroddiad i gyfarfod y Cyngor

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>7 Mawrth 2019</b>
<b>Adroddiad gan</b>	<b>Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Dilwyn Williams, Prif Weithredwr</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Cynllun Asedau 2019-29</b>

### Cefndir

1. Mae'r Cynllun Asedau presennol wedi dod i ddiwedd ei oes ac mae angen datblygu un newydd ar gyfer y cyfnod 2019/20 - 2029.
2. Fel man cychwyn ar gyfer creu'r fath gynllun, gofynnwyd i adrannau nodi beth oedd eu hanghenion tebygol dros y 10 mlynedd nesaf. Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae nifer o'r cynlluniau yn ymwneud a gwaith ataliol ac yn edrych i'r hirdymor gan geisio sicrhau gwasanaethau cynaliadwy i'r dyfodol.
3. Ar ôl derbyn y gofynion hynny fe roddwyd y cyfle i'r holl aelodau flaenoriaethu'r cynlluniau a roddwyd ymlaen gan adrannau. Bu i 38 aelod gwblhau'r dasg.
4. Wrth i aelodau ystyried y flaenoriaeth gymharol i'w roi i'r gwahanol gynigion, rhoddwyd manylion iddynt o'r hyn yr oedd pob cynllun yn ei olygu gan ofyn iddynt flaenoriaethu yn ôl y budd cymharol yr oeddent yn ei ystyried y byddai'r cynllun yn ei gynnig i drigolion Gwynedd.
5. Yn amlwg, 'roedd hyn yng nghyd-destun yr amcanion llesiant sy'n cael eu cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.
6. Ystyriodd y Cabinet y drefn flaenoriaeth a roddwyd gan yr aelodau yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror a gellir gweld yr adroddiad llawn hwnnw drwy ddilyn y linc isod.

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s19980/Eitem%209%20-%20Adroddiad%20Cynllun%20Asedau%202019-29.pdf?LLL=1>

7. Pe byddem wedi dilyn y drefn flaenoriaeth a gafwyd gan y 38 aelod a gymerodd rhan yn y broses yn slafaid, o ystyried y cyfyngiadau ar yr adnoddau cyfalaf sydd yn debygol o fod ar gael dros y 10 mlynedd nesaf, 'roedd yn amlwg y byddai yna rai cynlluniau fyddai ddim modd eu cyflawni er bod y risg o beidio gwneud hynny yn eithaf sylweddol.
8. Bu i'r Cabinet felly gadw at y drefn gyffredinol a osodwyd gan yr aelodau yn yr ymarferiad blaenoriaethu ond trosglwyddwyd dau gynllun i'w hystyried fel rhan o'r drefn blaenoriaethu adnoddau ar gyfer y Strategaeth Tai yn hytrach na'r Cynllun Asedau. Nodir y ddau gynllun yma yng nghymalau 59 i 62 y Cynllun.
9. Effaith ymarferol hynny wedyn yw medru sicrhau ein bod hefyd yn cyflawni mwy o'r cynlluniau risg uchel / canolig hynny fyddai ddim fel arall yn cael eu cyflawni.
10. Y cynlluniau y bydd modd eu cyflawni o wneud hynny yw'r rhai a nodir yng nghymalau 21; 22; 24; 25; 26; 27; 28; 33 a 40 y Cynllun.

#### **Deddf Cydraddoldeb 2010 - Effaith ar rai gyda nodweddion gwarchoddedig**

11. Nid yw'r adroddiad yma yn argymhell unrhyw weithred sy'n mynd i amharu ar y gwasanaeth a ddarperir i unrhyw un sydd â nodweddion gwarchoddedig,. Yn wir, bwriad y Cynllun Asedau yw sicrhau ein bod yn cyfeirio unrhyw adnoddau cyfalaf sydd ar gael i'r manau hynny sydd am gael ardrawiad positif ar ein holl drigolion gan gynnwys y rhai hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig.
12. Mae rhai cynlluniau, yn enwedig yn y maes gofal cymdeithasol, yn anelu i wella ansawdd y gwasanaeth i rai gyda nodweddion gwarchoddedig, ac mae'r cynlluniau hynny yn amlwg o'r rhestr. Lle 'roedd yna fudd anuniongyrchol ar rai gyda nodweddion gwarchoddedig, roedd y manylion am y cynlluniau a roddwyd i aelodau yn amlygu hynny.
13. Mae nifer o'r cynlluniau y byddwn yn blaenoriaethu ar y cychwyn yn disgyn i'r categori lle byddant yn gwella'r adnoddau sydd ar gael i rai gyda nodweddion gwarchoddedig.
14. Y gobaith yw y byddwn hefyd yn gallu cyflawni gweddill y cynlluniau os cyfyd adnoddau ar eu cyfer yn y cyfnod 10 mlynedd ond os cyfyd asesiad cydraddoldeb manylach fod yna ardrawiad nad oedd yn amlwg ar adeg ystyried y cynllun yma, bydd angen ail ymweld â'r drefn flaenoriaeth a osodir yn y cynllun hwn.
15. **Mae'r Cabinet yn argymhell i'r Cyngor felly ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun Asedau sydd ynghlwm i'r adroddiad yma fel ei Gynllun Asedau am y cyfnod 2019/20-2028/29.**